| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd<br>(Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd) |
| **DYDDIAD** | 26 Mehefin 2015 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cydbwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2014/15, a<br>• Ffurflen Swyddogol Flynyddol o'r Cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon |
| **AWDUR** | Willam E Jones, Uwch Reolwr Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Fel adroddwyd mewn blynyddoedd a fu, mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cydbwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cydbwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn).

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn llai na £2.5m, ystyrir y cydbwyllgor yn "gydbwyllgor bach" a rhaid paratoi'r cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol gan ddilyn arferion priodol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

1.6 Bydd y Datganiad o'r Cyfrifon yn destun archwiliad ar wahân gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 2. CYFRIFON 2014/15

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2014/15 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad “alldro” syml.

2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Ffurflen Swyddogol Flynyddol am 2014/15 (cyn archwiliad), wedi’i gwblhau a’i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dafydd L Edwards) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-bwyllgor.

2.3 Bydd y rhain yn destun archwiliad buan gan Swyddfa Archwilio Cymru, a bydd yr Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) yn cynhyrchu adroddiad “ISA260” (yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru). Pe bydd angen newidiadau yna fe gyflwynir fersiwn diwygiedig i’r Cyd-bwyllgor ar 25 Medi 2015 cyn cael ei ardystio gan yr Archwiliwr cyn 30 Medi.

2.4 Bu llithriad i’r rhaglen waith am amryw o resymau sydd wedi golygu bod y gwariant terfynol am 2014/15 yn llai na’r gyllideb wreiddiol. Mae’r “tanwariant” yma wedi ei roi o’r neilltu mewn cronfa ac wedi’i ymrwymo i’w wario yn 2015/16.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a chymeradwyo’r wybodaeth sydd yn yr atodiadau**, sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2014/15 – Atodiad A
- Ffurflen Swyddogol Flynyddol o’r Cyfrifon 2014/15 (cyn archwiliad) – Atodiad B